

Adroddiad blynyddol 2020-21 ar arfer swyddogaethau Pwyllgor y Llywydd

Adroddiad blynyddol yw hwn ar arfer swyddogaethau Pwyllgor Llywydd y Senedd yn ystod y flwyddyn ariannol 2020-21.

Cylch gwaith y Pwyllgor yw craffu ar amcangyfrifon ariannol a chynlluniau pum mlynedd a gyflwynir iddo gan y Comisiwn Etholiadol wrth gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig yng Nghymru.¹

¹ Gweler Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020



1. Cefndir

1. Mae Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn darparu ar gyfer cyllido gwaith y Comisiwn Etholiadol ar etholiadau a refferenda datganoledig Cymru o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer sefydlu pwyllgor newydd o Senedd Cymru, sef Pwyllgor y Llywydd, i fod yn gyfrifol am graffu ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol a'i gynlluniau pum mlynedd mewn perthynas â gwaith y Comisiwn ar etholiadau a refferenda datganoledig Cymru.

2. Ar 23 Medi 2020, derbyniodd Aelodau o'r Senedd y cynigion i sefydlu Pwyllgor y Llywydd ac i ethol ei aelodau. Mae gan y Pwyllgor chwe aelod: dau aelod ex-officio a phedwar aelod ar ran y grwpiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd. Y ddau aelod ex-officio yw Ann Jones AS (cadeirydd), yn rhinwedd ei swydd fel Dirprwy Lywydd y Senedd, a Llyr Huws Gruffydd AS, yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Pwyllgor Cyllid y Senedd. Y pedwar aelod ar ran y grwpiau gwleidyddol yw:

- Suzy Davies AS (Ceidwadwyr Cymreig)
- Dr Dai Lloyd AS (Plaid Cymru)
- Rhianon Passmore AS (Llafur Cymru)
- David J Rowlands AS (y Gynghrair Annibynnol dros Ddiwygio)

3. Mae paragraff 20B o Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, fel y'i mewnosodwyd gan adran 28(5) o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, yn ei gwneud yn ofynnol i Bwyllgor y Llywydd gyflwyno adroddiad blynyddol ar arfer ei swyddogaethau:

"20B(1) The Llywydd's Committee must, at least once in each year—

(a) prepare a report on the exercise by the Llywydd's Committee of its functions under this Schedule, and

(b) lay the report before Senedd Cymru."

4. Hwn yw'r adroddiad blynyddol cyntaf ar arfer swyddogaethau Pwyllgor y Llywydd Mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 23 Medi 2020 (y dyddiad y sefydlodd y Senedd y Pwyllgor) a 31 Mawrth 2021.

2. Gwaith y Pwyllgor yn ystod 2020-21

Trefniadau ar gyfer ariannu'r Comisiwn Etholiadol

5. Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi paratoi Datganiad o Egwyddorion Cyllido² rhyngddo ef ei hun, Pwyllgor y Llywydd, Pwyllgor Llefarydd Tŷ'r Cyffredin a Chorff Corfforaethol Seneddol yr Alban ar ddyrannu costau'r Comisiwn Etholiadol rhwng y pwyllgorau hynny a'r corff corfforaethol. Mae'r datganiad hwn, nad yw'n gyfreithiol rwymol, yn nodi'r fformiwla sydd i'w defnyddio i gyfrifo cyfraniad pob corff i gyllideb flynyddol y Comisiwn Etholiadol yn y dyfodol. Barn y Pwyllgor hwn yw bod datganiad o'r fath yn rhoi eglurder a sicrwydd i'r holl bartïon perthnasol ynghylch y sail ar gyfer paratoi amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol yn y dyfodol.

Craffu ariannol

6. Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor graffu ar amcangyfrifon ariannol a chynlluniau pum mlynedd a gyflwynir iddo gan y Comisiwn Etholiadol. Mae'n rhaid i'r Pwyllgor benderfynu a yw'n fodlon bod amcangyfrifon ariannol a chynlluniau o'r fath yn gyson â'r angen i'r Comisiwn Etholiadau arfer ei swyddogaethau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru.

7. Wrth benderfynu a yw'n fodlon felly, rhaid i'r Pwyllgor ystyried adroddiadau gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd neu effeithiolrwydd y Comisiwn Etholiadol wrth iddo ddefnyddio eu hadnoddau i gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru. Rhaid i'r Pwyllgor hefyd ymgynghori â Gweinidogion Cymru ar amcangyfrifon ariannol a chynlluniau pum mlynedd a gyflwynir gan y Comisiwn Etholiadol a rhaid iddo roi sylw i unrhyw gyngor y bydd Gweinidogion Cymru yn ei roi.

8. Ar ôl iddo gael ei sefydlu, mabwysiadodd Pwyllgor y Llywydd Ddatganiad o Egwyddorion Pwyllgor Cyllid y Senedd. Mae'r datganiad hwn yn nodi'r egwyddorion y disgwylir i gyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru roi sylw iddynt wrth wneud cynigion cyllideb sydd i'w hystyried gan y Pwyllgor Cyllid. Y bwriad yw iddynt helpu i sicrhau bod amcangyfrifon ariannol a gyflwynir i'r Pwyllgor Cyllid yn dryloyw ac yn ddarbodus, a'u bod yn adlewyrchu amgylchiadau economaidd ehangach Cymru. Gofynnwyd i'r Comisiwn Etholiadol

² Datganiad o Egwyddorion Cyllido y Comisiwn Etholiadol

ystyried y datganiad o egwyddorion wrth baratoi ei amcangyfrifon ariannol. Rydym yn argymhell bod Pwyllgor y Llywydd yn y Chweched Senedd hefyd yn mabwysiadu datganiad o egwyddorion y Pwyllgor Cyllid.

9. Ar 1 Hydref 2020, cyflwynodd y Comisiwn Etholiadol i Bwyllgor y Llywydd ei amcangyfrif ariannol ar gyfer 2021-22 a chynllun pum mlynedd ar gyfer 2020-21 i 2024-25. Cyfarfu'r Pwyllgor ar 6 Tachwedd 2020 i graffu ar yr amcangyfrif a'r cynllun, gan gymryd tystiolaeth gan gynrychiolwyr ar ran y Comisiwn Etholiadol.

10. Wedi ystyried y dystiolaeth a gafwyd gan y Comisiwn Etholiadol, ynghyd ag adroddiad gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol a chyngor gan Weinidogion Cymru, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr amcangyfrif a'r cynllun yn gyson â'r Comisiwn Etholiadol yn cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru yn economaidd, yn effeithlon ac effeithiol. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Comisiwn Etholiadol fonitro ei wariant ar etholiadau datganoledig Cymru yn erbyn yr amcangyfrif a ddarperir. Hefyd, argymhellodd newidiadau i'r ffordd y mae'r Comisiwn Etholiadol yn cyflwyno amcangyfrifon ariannol yn y dyfodol.

11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiwn Etholiadol yn gadael i'r Pwyllgor wybod am unrhyw gynnydd yn y costau yn sgil pandemig Covid-19 ac a oes tebygrwydd y bydd angen diwygio'r amcangyfrif ar gyfer y costau hynny. Os yw'r pandemig yn parhau i flwyddyn ariannol 2021-22, sef y flwyddyn ariannol y mae'r amcangyfrif ariannol a ystyriwyd yn hydref 2020 yn ymwneud â hi, argymhellir y dylai'r Comisiwn Etholiadol gysylltu'n agos â'r Pwyllgor ar yr angen i ddiwygio'r amcangyfrif i adlewyrchu unrhyw godiadau annisgwyl yng nghostau'r Comisiwn Etholiadol.

12. Mae adroddiad y Pwyllgor ar ei waith craffu ar yr amcangyfrif a'r cynllun ar gael [yma](#).³

Cyfarfodydd

13. Cyfarfu'r Pwyllgor unwaith yn ystod y flwyddyn ariannol 2020-21, ar ddydd Gwener 6 Tachwedd, er mwyn craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2021-22 a'r cynllun pum mlynedd. Mae manylion y cyfarfod, gan gynnwys trawsgrifiad a recordiad fideo ohono, ar gael [yma](#).⁴

³ <https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld13834/cr-ld13834-w.pdf>

⁴ <https://business.senedd.wales/iel/ListDocuments.aspx?CId=555&MId=6615&Ver=4>
